# GWNEUD I'CH ARIAN WEITHIO I CHI

**Llawlyfr i bobl ifanc 15 oed a throsodd mewn gofal**



Department for Education
sharefound
pfeg Personal Finance Education Group



# BETH SYDD
## YNDDO?


T. 5 **BETH SYDD DAN SYLW?**

**GWNEUD I'CH ARIAN FYND YMHELLACH**
T. 6 Tudalen gwybodaeth
T. 7 Gweithgaredd 1, Blaenoriaethu gwariant
T. 8 Gweithgaredd 2, Trefnydd Cyllideb Jason

**I BLE MAE'R ARIAN YN MYND?**
T. 9 Tudalen gwybodaeth
T. 10 Gweithgaredd 1, Edrych ar ddatganiad
T. 11 Gweithgaredd 2, Creu cyllideb barhaus

**GWNEUD CYNLLUN**
T. 12 Tudalen gwybodaeth
T. 13 Gweithgaredd 1, Digwyddiadau mawr bywyd
T. 14 Gweithgaredd 2, Dychmygwch gael arian annisgwyl

**CYMHARU'R FARCHNAD**
T. 15 Tudalen gwybodaeth
T. 16 Gweithgaredd 1, Pa gyfrif cynilo?
T. 17 Gweithgaredd 2, Mathau o fenthyca

**LLWYDDO GYDAG ARIAN**
T. 18 Tudalen gwybodaeth
T. 19 Gweithgaredd 1, Bod o gwmpas eich pethau
T. 20 Gweithgaredd 2, Gwariwr yntau gyniliwr ?

T. 22 **ATEBION**

T. 26 **EGLURHAD O'R TERMAU ARIANNOL**

T. 28 **GWYBODAETH I OFALWYR AC ATHRAWON (Y RHAN DDIFLAS!)**

# Croeso i **'Gwneud i'ch arian weithio i chi'.**

Rydym o'r farn bod dysgu am arian a chyllid personol yn sgiliau hynod bwysig i **bob** person ifanc – wedi'r cwbl, rydym yn defnyddio arian fwy neu lai bob diwrnod o'n bywyd.

Mae'n bosib iawn bod gennych dipyn mwy o arian na'r hyn a feddylioch gan fod y llywodraeth wedi sefydlu cyfrif cynilo newydd o'r enw Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau (Junior Individual Savings Account) – cyfrif cynilo i bobl ifanc yn unig.

Bydd gan bob plentyn sydd wedi derbyn gofal ers dros ddeuddeg mis £200 mewn cyfrif cynilo personol – arian y bydd y llywodraeth wedi ei roi yno. Mae modd ychwanegu at y swm hwn a gallai dyfu'n llawer mwy. Unwaith y byddwch yn 18, mae'r arian ar gael i chi ei wario fel y mynnoch. Dyna pam mae'n bwysig deall sut i drin eich arian a hyd yn oed ei dyfu'n fwy.

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu i'ch helpu i feddwl dipyn mwy am sut y defnyddiwch eich arian a'r penderfyniadau y bydd yn rhaid i chi, o bosib, eu gwneud yn y dyfodol. Unwaith y byddwch yn 18, mae'n ddigon posib y byddwch yn byw'n annibynnol, yn trin eich arian eich hun ac yn gwneud eich penderfyniadau eich hun.

Er bod help yn dal i fod ar gael o amryfal ffynonellau pan fyddwch yn 18 oed, nod yr adnodd hwn yw rhoi i chi'r sgiliau ariannol hanfodol tra bo gennych ofalwyr, gweithwyr allweddol ac athrawon yn dal yn gefn i chi. Gall y rhwydwaith cefnogi hwn fod yn help gwirioneddol i ateb unrhyw gwestiynau sy'n codi o ddefnyddio'r adnodd hwn.



# BETH SYDD DAN SYLW?

Mae'r llawlyfr adnoddau hwn wedi'i rannu'n bump adran:

### GWNEUD I'CH ARIAN FYND YMHELLACH

Gwneud yn siŵr eich bod yn medru prynu'r pethau y mae arnoch eu hangen ac arnoch eu heisiau gyda'r arian sydd ar gael gennych.

### I BLE MAE'R ARIAN YN MYND?

Weithiau hawdd yw colli golwg ar faint o arian sydd gennych yn weddill a faint yr ydych eisoes wedi'i wario.

### GWNEUD CYNLLUN

Efallai yr hoffech brynu gêm neu'r dilledyn diweddaraf. Mae wastad rywbeth y mae arnoch angen cynllunio ar ei gyfer.

### CYMHARU'R FARCHNAD

Sut ydych yn dewis y cyfrif banc gorau i chi? Lle yw'r lle gorau i chi roi eich cynilion? Edrychwn ar sut i fynd ati i wneud y dewisiadau gorau i chi.

### LLWYDDO GYDAG ARIAN

Gall y byd arian newid yn sydyn iawn. Gall fod yn ddefnyddiol iawn bod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn i sicrhau eich bod yn cael y fargen orau bob tro.

Mae ym mhob adran dudalen gwybodaeth a dau weithgaredd. Yn y dudalen gwybodaeth cewch ddarnau o wybodaeth ddefnyddiol am arian ac mae'r gweithgareddau'n ffordd i chi ddefnyddio'r wybodaeth i ddysgu mwy amdano.

Peidiwch â phoeni – nid yw'r gweithgareddau yno i'ch baglu. Eu bwriad yw bod yn weithgareddau eithaf sydyn, lle nad oes raid i chi ysgrifennu fawr ddim, ond hefyd eich cael i feddwl am sut i drin eich arian. Bydd llawer o'r gweithgareddau'n help i chi edrych ar eich barn a'ch syniadau am arian ac mae modd troi i gefn y llawlyfr i gael yr atebion i rai.

Os ydych yn dymuno cael mwy o wybodaeth am arian a materion ariannol, gan gynnwys Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau, gofynnwch i'ch gofalwr/gofalwraig neu i'ch athro/athrawes. Dywedwch wrthynt fod modd iddynt droi at **www.pfeg.org/JISA** neu **www.sharefound.org** am arweiniad!

# GWNEUD I'CH
## ARIAN FYND YMHELLACH

Gwneud yn siŵr eich bod yn medru prynu'r pethau yr ydych eu hangen a'u heisiau gyda'r arian sydd ar gael.

***Ydych chi'n gorfod benthyg arian gan eich ffrindiau ar ddiwedd yr wythnos?***

***Fyddwch chi'n cynilo ychydig o arian o gwbl ar gyfer costau ychwanegol?***

Rydych yn gwybod sut mae hi pan fo rhywbeth yn codi a fedrwch chi jest mo'i fforddio. Eisiau tocyn i'r gig, trip i ffwrdd neu ddilledyn. Ychydig iawn o bobl sydd â digon o arian ar gyfer popeth y mae arnynt eu heisiau. I gael dau ben llinyn ynghyd rhaid bod yn graff gyda'ch arian. Rhaid bod yn siŵr, yn y lle cyntaf, bod gennych y pethau hynny y mae arnoch wirioneddol eu hangen, fel lle diogel i fyw, bwyd i'w fwyta a dillad i'w gwisgo.

Mae rhai pobl yn gweld bod rhaid iddynt fenthyca gan ffrindiau neu'r banc ddiwedd bob mis er mwyn talu am yr hyn y maent yn ei wario. Wrth reswm, gall hyn ddigwydd yn awr ac yn y man ond, i gael dau ben llinyn ynghyd, rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch eich gwario fydd yn ceisio rhwystro hynny rhag digwydd.

**STORI**

***Jason, 18***

Pan symudais i mewn i fy lle fy hun, roeddwn yn meddwl fy mod wedi llwyddo go iawn. Ni fu'n hir cyn i'r biliau ddechrau cyrraedd, roedd rhaid talu'r rhent ac roeddwn yn dal heb gael credyd ar fy ffôn

Ar y dechrau, roedd hi'n ymdrech i ddal i fyny gyda phopeth. Rai misoedd roedd raid i mi hyd yn oed beidio â thalu rhai biliau. Fodd bynnag, ar ôl ychydig, des i'r arfer o wneud i'm harian fynd ymhellach. Y peth pwysicaf a ddysgais ei wneud oedd talu fy rhent a'm biliau yn gyntaf ac yna gweld faint o arian oedd gennyf i fyw arno am weddill y mis. Roedd raid i hwnnw wneud, faint bynnag oedd. Roedd pethau'n iawn y rhan fwyaf o fisoedd a rhai misoedd roeddwn hyd yn oed yn medru cynilo ychydig ar gyfer yr adegau hynny pan fyddwn, o bosib, yn brin o arian.

**Nid yw benthyg arian bob amser yn beth drwg. Gall enghreifftiau 'da' o fenthyca olygu arian i fynd i'r brifysgol, i brynu tŷ neu i brynu car i fynd i'r gwaith.**


**Cofiwch, pan fyddwch yn symud i fyw'n annibynnol, byddwch yn dal i fod â'r hawl i gefnogaeth gan eich awdurdod lleol. Gall hyn olygu cael ymgynghorydd personol, cymorth i gael llety addas, cymorth ariannol a chreu Cynllun Llwybrau sy'n amlinellu'r gefnogaeth y mae arnoch ei hangen.**



# GWNEUD I'CH
## ARIAN FYND YMHELLACH

**Gweithgaredd 1,** Blaenoriaethu gwariant.

Yn y rhestr isod ceir rhai o'r costau mwyaf cyffredin o fyw ar eich pen eich hun. Edrychwch trwy'r rhestr a cheisiwch ddewis y pump eitem bwysicaf i'w talu a'r pump drutaf. Nodwch y rhain yn y blychau ar waelod y dudalen.




| Y PUMP EITEM BWYSICAF I'W TALU: | Y PUMP EITEM DDRUTAF: |
|---|---|
| 1. .................... | 1. .................... |
| 2. .................... | 2. .................... |
| 3. .................... | 3. .................... |
| 4. .................... | 4. .................... |
| 5. .................... | 5. .................... |

# GWNEUD I'CH ARIAN FYND YMHELLACH

## **Gweithgaredd 2,** Trefnydd Cyllideb Jason.

Fe welsoch Stori Jason ar ddechrau'r bennod. Mae hyn yn debyg iawn i stori nifer fawr o bobl sy'n dechrau byw ar eu pennau eu hunain.

Yn 18 oed roedd incwm Jason oddeutu £900 y mis ar ôl tynnu treth ac yswiriant gwladol. Ar ei gostau byw yr oedd y rhan fwyaf o'i wariant (arian sy'n mynd allan) yn mynd. Nodir y rhain yn y tabl isod.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhent | **£330** | Trydan | **£23** |
| Bwyd | **£115** | Dŵr | **£20** |
| Treth y cyngor | **£100** | Pethau ar gyfer y tŷ | **£20** |
| Nwy | **£35** | Band llydan | **£18** |
| Dillad | **£33** | Trwydded teledu | **£12** |
| Ffôn tŷ | **£30** | Golchi dillad | **£10** |
| Ffôn symudol | **£30** | Yswiriant | **£2** |

| | |
|---|---|
| **CYFANSWM COSTAU BYW** | **£** |
| Mynd Allan | **£** |
| Cynilion | **£** |
| Eraill | **£** |

Gall llunio trefnydd cyllideb syml fel un Jason fod yn ffordd ddefnyddiol iawn o sicrhau eich bod wedi talu am y pethau pwysig iawn cyn i chi wedyn weithio allan faint sydd yn weddill ar gyfer pethau fel mynd allan a chynilo.

Bydd nifer o filiau'n newid gan ddibynnu faint yr ydych yn ei ddefnyddio ar wres ac ati, megis nwy yn y gaeaf.

Weithiau nid yw biliau'n dod i mewn bob mis, er enghraifft, gall bil dŵr, weithiau, gael ei anfon unwaith y flwyddyn. Haws fyddai, o bosib, roi ychydig o arian o'r neilltu bob mis i gyfrif cynilo ar gyfer pan ddaw'r bil. Fel hynny, ni fydd yn anodd cael hyd i'r arian.

**1.** Adiwch yr holl gostau byw i weld faint o'i incwm yr oedd Jason yn ei ddefnyddio wrth fyw yn ei fflat. Cewch ddefnyddio cyfrifiannell neu eich ffôn.

**2.** Gweithiwch allan faint sydd gan Jason yn weddill unwaith y mae'r costau byw wedi eu tynnu o'i incwm.

**3.** Faint o'r hyn sy'n weddill ganddo fyddech chi'n ei wario ar fynd allan neu'n ei gynilo? Nodwch y symiau yn y tabl.

**4.** Fyddai arnoch angen gwario arian ar rywbeth arall, o bosib? Os byddai, nodwch ddisgrifiad a'r swm yn y rhes 'Eraill'

**5.** Unwaith y mae'r tabl yn gyflawn, rhowch eich symiau ar gyfer 'Costau Byw', 'Mynd Allan', 'Cynilion', ac 'Eraill' i mewn i Drefnydd Cyllideb Jason isod. Adiwch nhw i gyd i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na £900.

**6.** Cofiwch, os oes gennych arian yn weddill gallwch bob tro gynyddu swm y cynilion.

**Trefnydd Cyllideb Jason**

| | |
|---|---|
| **INCWM JASON** | **£900** |
| **GWARIANT JASON** | |
| Costau byw | £ ............ |
| Mynd allan | £ ............ |
| Cynilion | £ ............ |
| Eraill | £ ............ |
| **CYFANSWM** | £ ............ |

# I BLE MAE'R ARIAN YN MYND?

Weithiau hawdd yw colli golwg ar faint o arian sydd gennych yn weddill a faint yr ydych eisoes wedi ei wario. Mae ffyrdd hawdd o wneud yn siŵr eich bod yn gwybod faint sydd gennych bob tro.

***Faint sydd gennych yn eich cyfrif banc ar hyn o bryd?***

***Sut y byddech yn gwybod pe byddai arian ar goll o'ch cyfrif?***

Gall y dasg hon fod fymryn yn ddiflas ac ara deg. Ond gall cadw golwg ar eich arian arbed eithaf tipyn o arian i chi yn y dyfodol. Gall hyn fod mor syml â gwybod faint o arian sydd gennych ar ôl i'w wario – A GLYNU WRTHO. Mae hyn yn hawdd iawn os oes gennych gyfrif banc gan y gallwch edrych ar eich **balans** (faint sydd gennych) gan ddefnyddio eich ffôn, y we, peiriant codi arian neu jest wrth holi yn eich cangen leol.

Hefyd, gyda chyfrif banc, bydd y banc yn anfon neu'n e-bostio **datganiad** bob mis. Mae hwn yn dangos rhestr o'r holl incwm (arian i mewn) a'r gwariant (arian allan) yn y mis diwethaf. Peth da yw cael i'r arfer o edrych ar eich datganiadau jest i sicrhau nad oes dim nad ydych yn gyfarwydd ag o.

**Cadwch eich rhif PIN (rhif adnabod personol) yn gyfrinach bob tro a pheidiwch byth â'i ysgrifennu. Gallai rhywun gyda'ch cardyn a'ch rhif PIN gael gafael ar eich arian i gyd.**




**Mae'n well cadw derbynebau o siopau bob tro fel bod modd i chi eu cymharu â'ch datganiad banc.**

**Pam trafferthu i edrych ar ddatganiadau banc?**

- Weithiau, er yn anaml iawn, gall banciau wneud camgymeriadau. Fel arfer, byddant yn datrys hyn yn sydyn iawn ond mae arnynt angen i chi roi gwybod iddynt am y camgymeriad yn y lle cyntaf.
- Mae twyll bancio personol yn fygythiad real iawn. Mae'n werth edrych i ofalu nad oes symiau annisgwyl o arian yn gadael eich cyfrif. Gallai hyn fod oherwydd bod rhywun wedi twyllo a chodi arian o'ch cyfrif.
- Gall camgymeriadau ddigwydd pan fyddwch yn talu am bethau mewn siopau gyda'ch **cerdyn debyd.** Os rhoddir rhif anghywir i mewn i'r peiriant 'chip and pin' efallai y byddwch yn talu'r swm anghywir.

Gall creu cyllideb fod yn ffordd dda o wneud yn siŵr bod gennych ddigon o arian ar gyfer y pethau yr ydych wedi eu cynllunio.




**Os edrychwch ar eich datganiad banc a gweld pethau ynddo nad ydynt yn gyfarwydd i chi, rhowch wybod i'ch banc YN SYTH. Ni allant wneud dim os na roddwch wybod iddynt.**

# I BLE MAE'R ARIAN YN MYND?

## **Gweithgaredd 1,** Edrych ar ddatganiad.

16 oed yw Tasha a dim ond ers tri mis y mae eganddi gyfrif cyfredol. Mae ganddi gerdyn debyd ac mae'n ei ddefnyddio i brynu'r rhan fwyaf o'i siopa beunyddiol. Mae hefyd yn defnyddio'i cherdyn i godi arian o beiriannau codi arian.

Isod mae datganiad banc Tasha am fis Awst. Mae wedi sylwi bod llai o arian i'w weld yn ei chyfrif nag oedd yn meddwl oedd yno. Wrth lwc, mae Tasha yn cadw cofnod o bopeth y mae'n ei wario ac o'r arian y mae'n ei godi.




Portico Bank
Rhif Cyfrif 10675423
Rhif didoli 30-43-87

Tasha Roberts

| Dyddiad | Manylion | Trafodiad* | Codwyd | Talwyd i mewn | Balans |
|---|---|---|---|---|---|
| | ARIAN A DDYGWYD YMLAEN | | | | £30.00 |
| 2 Awst | Accessories 4 You | CD | £6.40 | | £24.60 |
| 5 Awst | Arian i mewn | AP | | £35.00 | £59.60 |
| 8 Awst | Sound System | CD | £10.99 | | £48.61 |
| 9 Awst | Thatch | AR | £15.00 | | £33.61 |
| 9 Awst | Codi arian | AP | £20.00 | | £13.61 |
| 12 Awst | Arian i mewn | AP | | £35.00 | £48.61 |
| 15 Awst | Summer Sports | CD | £4.80 | | £43.81 |
| 17 Awst | Piccolos' | CD | £8.98 | | £34.83 |
| 17 Awst | Codi arian | AP | £20.00 | | £14.83 |
| 19 Awst | Arian i mewn | AP | | £35.00 | £49.83 |
| 20 Awst | Arian i mewn | AP | | £40.00 | £89.83 |
| 23 Awst | Glorious Gifts | CD | £43.00 | | £46.83 |

* *CD* : Cerdyn Debyd *AP* : Arian Parod *AR* : Archeb Reolaidd

**Cofnod Tasha**

2$^{il}$ o Awst – Scarff £6.40
5$^{ed}$ o Awst – Tâl gwaith £35
8$^{fed}$ o Awst - CD newydd £10.99
9$^{fed}$ o Awst – Cael torri ei gwallt £15 (misol)
9$^{fed}$ o Awst – Arian ar gyfer noson allan £20
12$^{fed}$ o Awst – Tâl gwaith £35
15$^{fed}$ o Awst – Nofio £4.80
17$^{eg}$ o Awst – Pizza £8.98
17$^{eg}$ o Awst – Arian parod ar gyfer y sinema £20
19$^{eg}$ o Awst – Tâl gwaith £35
20$^{fed}$ o Awst – Arian poced am y mis £40
23$^{ain}$ o Awst – Dwy gêm PS3 £4.30

**1.** Edrychwch ar gofnod Tasha a'i gymharu yn erbyn y datganiad banc i weld a allwch ganfod y camgymeriad.

**2.** Bai pwy ydych yn meddwl all y camgymeriad fod? Beth yw eich rheswm dros feddwl hynny?

**3.** Gall cadw golwg ar eich arian fod yn hynod ddefnyddiol er mwyn ei gymharu yn erbyn eich datganiad. Gall hefyd fod yn help i chi gynllunio sut i ddefnyddio eich arian.



# I BLE MAE'R ARIAN YN MYND?





## **Gweithgaredd 2,** Creu cyllideb barhaus.

Nid oes raid i gyllideb gael ei chyfyngu i fis yn unig. Gallwch lunio cyllideb am gymaint o fisoedd ag y dymunwch. Gall hyn fod yn hynod ddefnyddiol os gwyddoch y bydd adegau penodol yn ystod y flwyddyn pan fydd mwy o arian yn dod i mewn neu'n mynd allan. Os gallwch gynllunio'r rhain i mewn i'ch cyllideb gall eich helpu yn ystod yr adegau hynny a all fod yn ddrutach na'r arfer, ac i feddwl am beth i'w wneud gydag arian ychwanegol.

Yng ngweithgaredd 2 – 'Gwneud i'ch arian fynd ymhellach' buom yn edrych ar incwm a gwariant Jason. £900 oedd ei incwm y mis ar ôl talu treth ac Yswiriant Gwladol. Roedd ei gostau byw, hefyd, oddeutu'r un fath bob mis - £778. Yr hyn oedd yn weddill iddo ei wneud oedd penderfynu faint yr oedd yn ei wario ar fynd allan a faint i'w gynilo.

Mae Jason wedi nodi ei incwm a'i gostau byw yn y tabl isod. Mae hefyd wedi nodi ei gostau mynd allan a'i gynilion am fis Ionawr. Ddiwedd mis Ionawr roedd ganddo £52 yn weddill (balans a ddygir ymlaen). Dygir y swm hwn ymlaen i fis Chwefror gan mai hwn yw'r arian sydd ganddo yn awr yn ei gyfrif ddechrau mis Chwefror. Mae'r symiau mewn cromfachau ( ) yn dangos fod yr arian hwn wedi cael ei wario.

| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans a ddygir/ymlaen | £0 | £52 | | | | |
| Incwm | 900 | 900 | 900 | 900 | 900 | 900 |
| | | | | | | |
| Costau Byw | (778) | (778) | (778) | (778) | (778) | (778) |
| Mynd Allan | (50) | | | | | |
| Cynilion | (20) | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| Balans a ddygir ymlaen | £52 | | | | | |



Defnyddiwch y wybodaeth ychwanegol y mae Jason wedi ei rhoi isod i weld a allwch wneud yn siŵr bod ganddo ddigon o arian bob tro ar gyfer y misoedd i ddod. Nodwch y symiau yn y tabl yn y mis cywir ac yna gweithio allan faint y gall ei wario hefyd ar fynd allan a chynilo.

**Gwnewch yn siŵr nad oes gan Jason ddim llai na £0 ddiwedd bob mis. Byddai hyn yn golygu ei fod wedi codi gormod o arian a byddai'r banc yn codi tâl arno.**




***Mis Chwefror***
Pen-blwydd fy ffrind. Rhaid cael cerdyn ac anrheg. Bydd hynny oddeutu £40 i gyd.

***Mis Mawrth***
Am gael fy monws o'r gwaith. Roedd oddeutu £150 y llynedd.

***Mis Ebrill***
Rhaid talu'r rhan olaf o'm gwyliau. Dyna £280.

***Mis Mai***
Rhaid talu treth car. £120 yw honno.

# GWNEUD
## CYNLLUN

Bob amser mae rhai pethau y mae'n well cynllunio ar eu cyfer. Yn aml, rhaid cynilo cyn talu am bethau drud fel gliniadur, gwersi gyrru neu drip. Efallai bod gennych ychydig o arian yn barod mewn Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau neu mewn cyfrif cynilo arall.  Mae hon yn ffordd dda o gynilo'n rheolaidd ar gyfer eitemau drud.

***Beth fyddwch yn ei wneud dair blynedd o nawr?***

***Ydych wedi meddwl am gynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr bywyd neu ar gyfer eitemau drutach y mae arnoch eisiau eu prynu?***

***Allech chi roi ychydig o arian o'r neilltu'n rheolaidd er mwyn cynorthwyo i gynllunio ymlaen?***

Mae tair blynedd – a thair wythnos – yn gallu teimlo'n amser maith i ffwrdd! Sut ydych yn hyd yn oed dechrau cynllunio ar gyfer pethau na fyddant, o bosib, yn digwydd am 10 neu 20 mlynedd eto. 'Dyw'r ateb ddim yn anodd. Os meddyliwch am y chwe mis nesaf, fe wyddoch y bydd costau ychwanegol yn eich wynebu ar adegau fel pen-blwydd ffrind, y Nadolig neu drip i ffwrdd. Gwyddoch bod y rhain ar y gorwel ac felly rhowch ychydig o arian o'r neilltu bob wythnos i gynilo llawer ar eu cyfer. Fe synnwch mor gyflym y bydd yr arian yn cronni!

Mae modd cynllunio ar gyfer rai o ddigwyddiadau mwyaf bywyd, megis prynu car, priodi neu gael plentyn, mewn ffordd debyg iawn. Y ffordd orau un o gynllunio eich arian ar gyfer y digwyddiadau hyn yw rhoi ychydig o'r neilltu mor rheolaidd ag y gallwch. Bydd cyfrifon cynilo, megis Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau, o gymorth i'ch arian dyfu gan y byddant yn talu llog ar ben yr arian yr ydych wedi ei gynilo. Po fwyaf o arian yr ydych yn ei gynilo, y mwyaf yw swm y llog a delir.

### Sut gall cynilion dyfu

***Cynilo'n rheolaidd***

- Byddai rhoi £30 mewn cyfrif cynilo bob mis am dair blynedd ar gyfradd llog o 4% yn dod yn £1,145.45
- Pe byddai £30 yn cael ei gynilo bob mis am ddeng mlynedd, £4,417.49 fyddai'r swm
- Pe byddai £30 yn cael ei gynilo bob mis am 30 mlynedd, £20,821.48 fyddai'r swm

### Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cynilion a buddsoddiadau?

**Cynilion** ▸ Pan fyddwch yn rhoi arian mewn cyfrif cynilo rydych yn rhoi'r arian hynny i fanc neu gymdeithas adeiladu edrych ar ei ôl. Gall y banciau a'r cymdeithasau adeiladu ddefnyddio'r arian hwnnw i wneud mwy o arian iddyn nhw eu hunain (megis ei fenthyca i bobl eraill) ac, o'r herwydd, maent yn cytuno i dalu llog i chi ar ben eich cynilion. Ni fydd swm y cynilion sydd gennych mewn banc neu gymdeithas adeiladu byth yn mynd i lawr ac, ym mhob achos bron, bydd yn tyfu oherwydd y llog. Mae cyfrifon cynilo i'w gweld yn ffordd ddiogel iawn o gynilo arian.

**Buddsoddiadau** ▸ Mae rhai pobl yn penderfynu cymryd ychydig mwy o risg gyda'u harian. Maent yn prynu rhywbeth gyda'u harian y credant y bydd yn cynyddu yn ei werth dros gyfnod o amser. Gallai fod yn ddarn o gelf neu aur ond, yn y rhan fwyaf o achosion, yr hyn ydynt yw cyfranddaliadau mewn cwmni neu mewn ystod o gwmnïau. Os bydd y darn celf neu aur wedi codi yn ei werth pan fyddwch yn ei werthu byddwch wedi gwneud arian. Y risg gyda buddsoddi yw na fydd byth modd gwarantu y bydd y gwerth yn codi – gall fod yn hynod debygol , ond ni fydd byth modd ei warantu. A gall fynd i lawr yr un mor hawdd! Y prif reswm pam fod pobl yn dewis buddsoddi eu harian yn hytrach na'i roi mewn cyfrif cynilo yw bod potensial i wneud mwy o arian trwy fuddsoddiadau na thrwy gynilion. Diwedd y gân yw faint o risg y mae person yn barod i'w gymryd.

Mae Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau ar gael fel "cash junior ISA" (cyfrif cynilo) ac fel "stocks and shares junior ISA" (cyfrif buddoddi).

Darllennwch am hud adlog (compound interest) yn yr adran "Eglurhad o'r Termau Ariannol" yng nghefn y llyfr, neu gwyliwch y fideo: **http://tinyurl.com/dy84s3g**

# GWNEUD
## CYNLLUN

**Gweithgaredd 1,** Digwyddiadau mawr bywyd.


Er mwyn cynllunio ymlaen yn dda, rhaid i chi gael syniad o faint y gallai rhai o'r digwyddiadau mawr hyn eu costio. Isod ceir pump digwyddiad bywyd, mewn sgwariau, a phump swm gwahanol. Tynnwch linellau o'r digwyddiad bywyd y credwch sy'n cyfateb i'r swm cywir.



1. COST CAR CYNTAF



2. COST PRIODAS NEU BARTNERIAETH SIFIL



3. INCWM BLWYDDYN O SWYDD GYNTAF



4. COST CARTREF CYNTAF



5. COST BLWYDDYN GYNTAF O GAEL BABI

**A.** £11,000

**B.** £10,261

**C.** £150,000

**D.** £7,162

**D.** £16,356

Edrychwch ar yr atebion. Oes rhai o'r rhain yn eich synnu?

Ni fydd y mwyafrif o bobl yn medru cynilo digon i dalu am y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn ond, wrth gynllunio ymlaen, gallant ddechrau meddwl sut y gall eu cynilion weithio gyda chynhyrchion ariannol eraill i'w helpu i wireddu eu breuddwydion.



# GWNEUD
## CYNLLUN

**Gweithgaredd 2,** Dychmygwch gael arian annisgwyl.

Rydych yn cael swm o arian annisgwyl unwaith-ac-am-byth. Gall fod yn arian pen-blwydd, yn arian a enillwyd ar y loteri neu'n fonws o'r gwaith.

Rydym i gyd wedi breuddwydio beth fyddem yn ei wneud pe bai gennym filiynau o bunnoedd. Yn anffodus, gan amlaf, mae'r arian annisgwyl a gawn dipyn llai! Bydd y llywodraeth yn rhoi £200 i mewn i gyfrif cynilo / buddsoddi arbennig llawer o bobl ifanc sydd mewn gofal ers dros ddeuddeng mis. Enw'r cyfrif hwn yw Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau – Junior ISA. Mae'r arian hwn yn mynd yn syth i'r person ifanc unwaith y bydd yn ddeunaw oed. Efallai y bydd y Share Foundation neu eraill wedi ychwanegu ato dros amser. Gyda gobaith, bydd hefyd wedi tyfu oherwydd llog neu gynnydd mewn gwerth buddsoddiadau.

Edrychwch ar y tri swm isod ac egluro beth fyddech yn ei wneud gyda'r arian pe byddech yn ei gael yn annisgwyl. Nodwch eich meddyliau yn y bocs wrth eu hymyl.

**Cwpwl o'r Alban a enillodd y swm mwyaf erioed ar y loteri ym Mhrydain – £161 miliwn i gyd!**




**£200**

..............................................................................................................

..............................................................................................................

**£3,000**

..............................................................................................................

..............................................................................................................

**£15,000**

..............................................................................................................

..............................................................................................................

Edrychwch yn ôl ar eich atebion a meddwl am y cwestiynau isod:

**1.** Ydych chi wedi sôn am gynilo rhywfaint o'r arian? Gallai fod yn ddoeth rhoi o leiaf cyfran fechan o unrhyw arian annisgwyl mewn cyfrif cynilo fel Junior ISA.

**2.** Oes gwahaniaeth rhwng yr hyn y byddech yn ei wneud gyda £200 o'i gymharu â £15,000?

**3.** Edrychwch ar gostau rhai o'r eitemau y dywedoch y byddech yn eu prynu drwy chwilio ar y we. Allwch chi eu prynu gyda'r swm a gawsoch?

# CYMHARU'R FARCHNAD

Sut ydych yn dewis y cyfrif banc gorau i chi? Lle yw'r lle gorau i chi roi eich cynilion? Beth sydd arnoch angen ei gymharu, a sut mae mynd ati i wneud y dewisiadau iawn i chi.

***Pa gynhyrchion ariannol eraill sydd ar gael ar wahân i gyfrifon banc?***

***A ydych yn darllen y print mân o gwbl?***

***A yw eich Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau yn gwneud y gorau i'ch cynilion chi?***

Mae cynhyrchion ariannol o'n cwmpas ym mhob man ac mae'r rhan fwyaf o oedolion yn eu defnyddio bob dydd. Mae rhai'n hawdd i'w hadnabod ond efallai na fyddech wedi meddwl mai cynhyrchion ariannol yw'r rhai eraill. Un o'r cynhyrchion ariannol mwyaf cyffredin yw cytundeb ffôn symudol. Gallwch gael un o'r rhain yn 18 oed. Mae ystod mawr o ffonau a chytundebau ffôn i ddewis ohonynt a bydd y rhan fwyaf o bobl yn chwilio o gwmpas am y ffôn sydd orau iddyn nhw gan ddarparwr sy'n cynnig y fargen orau.

Dylid dewis pob cynnyrch ariannol arall yn union yr un modd. Bydd gwahanol fanciau'n cynnig ystod o gynhyrchion, o gyfrifon banc i fenthyciadau a morgeisi a chyfrifon cynilo arbenigol. Gall cymryd ychydig o amser i ymchwilio i'r un sydd orau i'ch anghenion chi, gweld pa un yw'r fargen orau a dewis hwnnw, wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Yn union fel ffôn!

**Y cynhyrchion ariannol mwyaf cyffredin a gynigir gan fanciau yw:**

- **Cyfrif cyfredol –** cyfrif banc yw hwn sy'n caniatáu i chi wneud eich holl drafodion dydd i ddydd. Yn aml iawn ceir cerdyn debyd gyda chyfrif cyfredol ac mae modd ei ddefnyddio i brynu eitemau mewn siopau heb orfod defnyddio arian parod. Daw'r arian a wariwch yn syth o'ch cyfrif cyfredol. Fel arfer, byddwch yn gallu defnyddio eich cerdyn debyd i godi arian o beiriant codi arian.
- **Cyfleuster gorddrafft –** math o fenthyca yw hwn sydd wedi'i gysylltu â'ch cyfrif cyfredol. Mae'n caniatáu i chi wario mwy na'r hyn sydd gennych yn eich cyfrif, hyd at derfyn penodol. Math o fenthyca tymor byr yw hwn a bydd y banc yn codi llog arno. Rhaid cael caniatâd y banc cyn defnyddio gorddrafft neu, fel arall, fe godir amdano a byddwch yn talu llog uchel ar eich benthyciad. Bydd mwyafrif y bobl yn talu'r gorddrafft yn ei ôl bob mis pan delir eu hincwm mewn i'r cyfrif. **18**
- **Cyfrif Cynilo –** math arall o gyfrif banc, ond ar gyfer arian y mae arnoch eisiau ei gynilo y mae hwn. Gallwch dalu arian i mewn pryd bynnag y mynnwch ond efallai y bydd cyfyngiadau ar ba mor aml y cewch ei godi. Fel arfer bydd y banc yn talu llog ar eich cynilion. Mae Junior ISA Iau yn fath o gyfrif cynilo.
- **Benthyciad personol –** mae banciau'n cynnig benthyciadau o hyd at £25,000 i unigolion dros gyfnod o hyd at bum mlynedd. Byddant hefyd yn codi llog ar y swm a fenthyciwyd, a all fod yn eithaf uchel. Nid pawb sy'n gallu cael benthyciad gan ei fod yn dibynnu'n helaeth ar eich amgylchiadau ariannol (megis oes gennych swydd ac ydych yn berchen ar eich tŷ eich hun). **18**
- **Morgais –** mae'n debyg i fenthyciad personol ond, fel arfer, mae morgais yn fenthyciad mwy a roddir i bobl iddynt brynu tŷ. Unwaith eto, mae faint y gallant ei fenthyca'n dibynnu ar amgylchiadau ariannol yr unigolyn. Er bod costau llog fel arfer yn is na benthyciadau personol, gall y benthyciadau ymestyn dros gyfnod hir, 25 mlynedd fel arfer, ac os na fydd ad-daliadau'n cael eu gwneud yn fisol gall y banc adfeddiannu'r tŷ (ei gymryd yn ôl a'i werthu i gael eu harian yn ôl). **18**
- **Buddsoddiadau –** cânt eu cynnig gan ystod eang o sefydliadau gwasanaeth ariannol: cronfeydd a stociau a chyfranddaliadau yw'r rhai mwyaf cyffredin. Mae'r risg yn gallu amrywio, a gall eich arian fod yn werth llai na'r hyn a fuddsoddwyd yn wreiddiol. Ar y llaw arall gall eich buddsoddiad hefyd roi elw sylweddol uwch na gadael eich arian mewn cyfrif cynilo. Fel arfer bydd Junior ISA's i bobl ifanc dan 15 yn cynnwys buddsoddiadau.

**18** : Cynhyrchion benthyca yw'r rhain i gyd sydd ar gael i bob dros 18 oed yn unig.

# CYMHARU'R FARCHNAD

## **Gweithgaredd 1,** Pa gyfrif cynilo?



**STORI**

***Clarissa, 20***
Rwyf yn gweithio ers pan oeddwn yn 16 oed. Pan oeddwn yn 18, gadewais fy ngofalwyr a mynd i fyw ar fy mhen fy hun a chael fy swydd lawn amser gyntaf. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rwyf wedi gallu cynilo ychydig bob mis, ac rwyf wirioneddol wedi fy synnu faint sydd wedi cronni. Ers rwyf yn 18 oed, gallaf gael at yr arian yn fy Nghyfrif Cynilo Unigol Plant Iau a bu hwnnw'n help i mi symud i mewn i'r fflat hwn. Ar hyn o bryd, mae gennyf oddeutu £1,200 wedi ei gynilo ac rwyf am barhau i gynilo i gael car neu i symud i fflat gwell.

Rwyf yn ceisio fy ngorau i beidio â mynd i mewn i'm cynilion ond bu adegau pan nad oedd gennyf ddewis arall. O'r herwydd, rwyf angen cyfrif lle gallaf gael at fy arian os wyf ei angen – a rhaid i hynny fod yn eithaf sydyn! Nid oes gennyf gyfrifiadur gartref felly ni fyddaf yn bancio ar-lein. Mae'n well gennyf siarad gyda rhywun wyneb yn wyneb mewn cangen, beth bynnag.

**Cyfrifon Cynilo**

Darllenwch Stori Clarissa uchod ac yna edrych ar fanylion y pedwar cyfrif cyfredol isod. Defnyddiwch y wybodaeth o stori Clarissa i benderfynu pa un o'r pedwar dewis fyddai orau iddi hi.

| | CYFRIF A | CYFRIF B | CYFRIF C | CYFRIF D |
|---|---|---|---|---|
| **Gallwch agor y cyfrif gyda** | £1 | £100 | £1 | £1,000 |
| **Sawl gwaith y caniateir codi arian** | Dim cyfyngiad | Dim cyfyngiad | Tair gwaith y flwyddyn | Dim cyfyngiad |
| **Cyfradd Llog (CGF)*** | 2,35% | 2,50% | 2,65% | 3,10% |
| **Cyfnod rhybudd** | Mynediad yn syth | Mynediad yn syth | 30 diwrnod | 30 diwrnod |
| **Mynediad** | Cangen, ar-lein, ffôn | Cangen, ar-lein, ffôn a'r post | Ar-lein yn unig | Post, cangen, ffôn |
| **Anrhegion yn rhad ac am ddim** | Cerdyn rheilffordd i fyfyriwr – arbed 1/3 ar deithio am flwyddyn | Dim anrheg | £10 yn cael ei roi yn eich cyfrif ar ôl 12 mis | Yswiriant teithio am flwyddyn |

* Cyfradd Gyfatebol Flynyddol. Yn Saesneg: Annual Equivalent Rate (AER).

Pa gyfrif ddewisoch chi i Clarissa?

.....................................................................................................................................

Meddyliwch am y rhesymau dros ddewis y cyfrif hwnnw i Clarissa. Dyma'r union bethau y bydd raid i chi, o bosib, feddwl amdanynt wrth ddewis eich cyfrif cynilo eich hun.

# CYMHARU'R FARCHNAD




**Gweithgaredd 2,** Mathau o fenthyca.

Mae nifer o'r cynhyrchion ariannol sydd ar gael yn fathau o fenthyca. Mae bwriad gwahanol i bob un. Mae modd rhannu mathau o fenthyca i fenthyca dros dymor byr, tros dymor canolig a thros dymor hir.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth isod, cysylltwch y cynnyrch â'i ddisgrifiad ac yna â'r math o fenthyca -tymor byr, tymor canolig neu dymor hir:

**Cofiwch gymharu'r farchnad cyn benthyca arian. Mae banciau'n cynnig telerau gwahanol ar gyfer benthyca, fel y gwnânt ar gyfer cynilo.**




**1. GORDDRAFT**

**2. MORGAIS**

**3. CERDYN CREDYD**

**4. CERDYN SIOP**

**5. BENTHYCIAD PERSONOL**

**A.** Benthyciad a ddefnyddir fel arfer i brynu tŷ. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dewis ei dalu'n ôl dros gyfnod o 25 mlynedd.

**B.** Cerdyn y gallwch ei ddefnyddio i brynu'r rhan fwyaf o nwyddau a gwasanaethau. Ddiwedd bob mis anfonir atoch ddatganiad o'ch gwariant y mae'n rhaid i chi ei dalu neu codir llog ar y swm sy'n ddyledus.

**C.** Benthyciad i unigolyn a ddefnyddir ar gyfer pethau megis prynu car, addurno'r tŷ ac ati. Oddeutu £25,000 yw'r uchafswm.

**D.** Cyfleuster sy'n caniatáu i chi wario mwy o arian na'r hyn sydd gennych yn eich cyfrif cyfredol yw hwn. Talwch log bob mis ar y swm yr ydych yn ei fenthyca.

**E.** Cerdyn y gallwch ei ddefnyddio i brynu eitemau o siop benodol. Ddiwedd bob mis anfonir atoch ddatganiad o'ch gwariant y mae'n rhaid i chi ei dalu neu codir llog ar y swm sy'n ddyledus gennych.

**Tymor Hir**

**Tymor Canolig**

**Tymor Byr**



# LLWYDDO
## GYDAG ARIAN

Gall y byd arian newid yn gyflym iawn a gall pethau fel y llog ar eich cyfrif cynilo hefyd newid yn sydyn. Mae'n ddefnyddiol iawn bod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn i wneud yn siŵr eich bod yn cael y fargen orau bob tro.

***Lle gallwch gael rhagor o gyngor ynghylch eich arian?***

***Pam trafferthu cael y wybodaeth ddiweddaraf?***

Os yw eich banc yn newid y gyfradd llog y mae'n ei dalu ar eich cynilion, mae hyn yn cael effaith ar faint o log a dderbyniwch. Os yw'n codi'r gyfradd, cewch fwy bob blwyddyn ond, os yw'n gostwng y gyfradd, byddwch yn derbyn llai. Mae'n werth cadw llygad bob tro ar y gyfradd llog a delir ac edrych o gwmpas i weld a oes bargen well yn rhywle arall.

Sut ydych yn 'siopa o gwmpas', felly? Lle allwch chi fynd i gael mwy o wybodaeth am y bargeinion gorau sy'n addas i'ch anghenion? Wel, mae yna nifer o ffynonellau gwahanol o wybodaeth a chyngor a all fod o help i chi.

**Cofiwch, mae pob cwmni gwasanaeth ariannol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am eich busnes. Fel arfer, mae bargeinion i'w cael ond rhaid edrych o gwmpas amdanynt.**

**Ffynonellau gwybodaeth a chyngor:**

- **Papur newydd –** yn aml mae ganddo adran arian sy'n cynnwys tablau 'y fargen orau'. Tablau sy'n dangos y pump neu'r deg math gorau o wahanol gynhyrchion (megis cyfrifon cynilo, benthyciadau personol a chardiau credyd). Mae'n bosib, hefyd, y bydd y papur newydd yn cynnwys barn y sawl a ysgrifennodd yr erthygl .
- **Teledu neu radio –** ar y newyddion ac yn aml mewn rhaglenni ar wahân sy'n canolbwyntio ar arian (fel Money Box am hanner dydd ar ddyddiau Sadwrn ar Radio 4), mae modd cael gwybodaeth debyg i'r hyn sydd mewn papur newydd, ar y teledu.
- **Ffrindiau a gofalwyr –** maent yn eich adnabod yn well na neb ac, o'r herwydd, efallai y gallant wneud awgrymiadau am yr hyn fydd yn yn gweithio orau i chi.
- **Ymgynghorydd Ariannol Annibynnol –** gwaith hwn yw rhoi cyngor i bobl ar eu sefyllfa ariannol ac argymell cynhyrchion ariannol y credant fydd orau iddynt. Gallant ddewis o'r holl gynhyrchion y mae'r holl fanciau a darparwyr eraill yn eu rhoi. Bydd rhai ymgynghorwyr ariannol annibynnol yn codi am eu gwasanaeth ond bydd eraill yn rhad ac am ddim i'r cwsmer.
- **Eich banc –** bellach, mae gan y rhan fwyaf o fanciau ymgynghorydd cymwys ym mhob un o'u canghennau a all eistedd gyda chi a thrafod eich sefyllfa ariannol gyda chi ac argymell cynhyrchion a allai fod yn addas i'ch helpu. Fel arfer, mae'r rhain yn rhad ac am ddim ond yn aml dim ond y cynhyrchion y banc hwnnw y gall y banc eu trafod.
- **Y we –** mae llwythi o wefannau sydd â thŵls a chyfrifianellau ac ati a allai fod o help i chi ddysgu mwy am gynilion a buddsoddiadau. Mae hyn yn beth gwych i'w wneud beth bynnag ond efallai y byddwch, hefyd, yn dymuno edrych ar ôl eich Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau pan fyddwch yn 16. Fodd bynnag, i wneud hyn bydd raid i chi wybod mwy am y ffordd y maent yn gweithio. Gwnewch yn siŵr bod gan y gwefannau yr ydych yn eu defnyddio enw da a'u bod yn annibynnol (fel nad ydynt yn ceisio gwerthu rhywbeth i chi).

# LLWYDDO
## GYDAG ARIAN

**Gweithgaredd 1,** Bod o gwmpas eich pethau.

**STORI**

***Rhianna, 19***
Ers pan oeddwn yn 12 oed bu gennyf gyfrif cynilo yr oedd fy ngofalwyr wedi ei agor i mi. Wnes i ddim sylweddoli ar y pryd ond roeddynt yn rhoi arian i mewn iddo'n rheolaidd ar fy nghyfer. Pan oeddwn oddeutu 16 oed, dechreuais edrych ar ôl fy nghyfrif fy hun ac fe'i rhoddwyd yn fy enw i. Roedd hi'n gymaint o demtasiwn mynd am sbri a gwario ond gwyddwn, pe byddai hynny'n digwydd y buasai wedi mynd a minnau heb ddim i ddangos amdano.

Pan agorwyd y cyfrif yn fy enw i, rwyf yn cofio'r dyn yn y banc yn dweud wrthyf faint o log y byddai'n ei gael bob blwyddyn ac roedd hynny i'w weld yn eithaf da. Y llynedd cefais fy natganiad am y cyfrif cynilo a gweld bod y llog yn llawer is na'r hyn yr oeddwn wedi ei ddisgwyl. Siaradais gyda'r banc a dywedwyd wrthyf ei fod wedi newid a'i fod bellach yn llawer is na'r hyn a fu. Roedd wedi bod fel hyn ers o leiaf flwyddyn ond nid oeddwn wedi edrych arno.


Defnyddiais y we i chwilio am gyfrif cynilo arall. Roedd cyfraddau llog da iawn i'w gweld ond roeddynt gyda banciau nad oeddwn erioed wedi clywed amdanynt. Felly, dewisais gyfrif oedd â chyfradd eithaf da ond gyda banc yr oeddwn yn gwybod amdano. Es i'r gangen a thrafodais symud fy nghynilion o le yr oeddynt i'r cyfrif newydd hwn. O'r adeg hynny ymlaen, y banc wnaeth y gweddill, bron â bod. Roedd yn llawer haws na'r hyn a feddyliais ac rwyf yn edifar na wnes gadw llygad barcud ar y gyfradd llog a symud fy nghynilion ynghynt. Byddaf yn gwneud hynny o hyn ymlaen!

**1.** Beth yw'r broblem os aiff y llog ar eich cynilion i lawr?

**2.** Beth benderfynodd Rhianna ei wneud unwaith y sylweddolodd bod y gyfradd llog mor isel?

**3.** Sut aeth Rhianna ati i chwilio am fargen well?

**4.** Pam na ddewisodd y gyfradd orau bosib?




Nodwch dair ffordd arall y gallai fod wedi cael mwy o wybodaeth am y gwahanol gyfrifon cynilo y gallai ddewis rhyngddynt:

1. ......................................................

......................................................

2. ......................................................

......................................................


3. ......................................................

......................................................

# LLWYDDO
## GYDAG ARIAN

**Gweithgaredd 2,** Gwariwr yntau gyniliwr ?

Rhowch gynnig ar y cwis cyflym hwn!




Wow – rydych o gwmpas eich pethau! Mae hwn yn lle da i fod ynddo ond cofiwch bod yna dir canol rhwng cynilo a gwario. Ceisiwch y wybodaeth ddiweddaraf am faterion ariannol a gwybod lle i fynd am gyngor.

Rydych wedi dechrau'n dda iawn. Wrth gynilo'n rheolaidd mae modd casglu swm sylweddol. Os nad ydi'ch cynilion mewn cyfrif cynilo eto edrychwch o gwmpas am fargen dda. Ewch am gyngor ac edrych ar y gyfradd llog yn rheolaidd.

Er nad ydych eto o gwmpas eich pethau wrth drin eich arian, nid ydych mewn dyled, o leiaf. Ceisiwch lunio cyllideb a chynllunio i gynilo ychydig bach yn awr ac yn y man. Gallwch hyd yn oed agor cyfrif cynilo a siarad gyda'ch banc amdano.

Iawn, rhaid i bawb ddechrau'n rhywle! Yn gyntaf, ceisiwch lunio cyllideb syml am bob wythnos. Os gallwch wneud hynny heb fenthyca, mae hynny'n wych. Efallai y gallech siarad gyda'ch gofalwyr neu eich ffrindiau am argymhellion sydd ganddynt i gynilo.



# ATEBION

Mater i ni – a ni yn unig – yw'r rhan fwyaf o'r dewisiadau a phenderfyniadau a wnawn ynghylch arian. Yn aml iawn, nid oes ateb cywir nac anghywir.
Dyma atebion i rai o'r gweithgareddau yn y llyfryn hwn i'ch helpu i wneud dewisiadau doeth.

## GWNEUD I'CH ARIAN FYND YMHELLACH

**Gweithgaredd 1,** Blaenoriaethu gwariant.

Fel y gwelwch, yr un rhai yw'r pethau pwysicaf a'r pethau drutaf! Dyma pam eu bod yn bwysig, a chost pob eitem.

**1. Rhent (£330 y mis ar gyfartaledd) –** Os nad ydych yn talu eich rhent, yna rydych mewn perygl o golli eich cartref.

**2. Bwyd (£160 y mis ar gyfartaledd) –** Rhaid i ni gyd fwyta.

**3. Treth y Cyngor (£118 y mis ar gyfartaledd) –** Treth y mae'r llywodraeth wedi ei gosod yw hon – treth ar werth yr eiddo yr ydych yn byw ynddo. Bydd eiddo drutach yn talu treth uwch. Os nad ydych yn talu treth y cyngor, efallai y cewch ddirwy a hyd yn oed mynd i'r carchar mewn achosion difrifol.

**4. Nwy – (£35 y mis ar gyfartaledd) –** I fwyafrif y bobl mae cost nwy yn uwch yn y gaeaf gan eich bod yn defnyddio llawer mwy o wres. Er mwyn gwasgaru ei gost dros y flwyddyn, mae llawer o bobl yn rhoi mwy o arian o'r neilltu yn ystod yr haf pan fyddant yn defnyddio llai er mwyn talu am gostau'r gaeaf. Os na fyddwch yn talu codir yn ychwanegol arnoch ac, yn y pen draw, gall y cwmni nwy ddatgysylltu eich cyflenwad nwy a byddwch heb ddim (gelwir hyn yn 'cael eich torri i ffwrdd').

**5. Trydan – (£30 y mis ar gyfartaledd) –** Nid yw cost trydan yn newid cymaint â nwy yn ystod y flwyddyn, ond mae'n dal yn uwch yn y gaeaf pan fo'ch goleuadau ymlaen am gyfnodau hirach. Gall peiriannau penodol megis sychwr dillad ddefnyddio llawer o drydan felly ceisiwch sychu eich dillad allan. Os na fyddwch yn talu codir yn ychwanegol arnoch ac, yn y pen draw, gall y cwmni trydan ddatgysylltu eich cyflenwad trydan a byddwch heb ddim (gelwir hyn yn 'cael eich torri i ffwrdd').

**Gweithgaredd 2,** Trefnydd Cyllideb Jason.

**Trefnydd Cyllideb Jason**

| INCWM JASON | £900 |
|---|---|
| **GWARIANT JASON** | |
| Costau Byw | **£ 778** |

Mae costau byw Jason yn £778. Mae hyn yn gadael £122 iddo ar gyfer 'mynd allan', 'cynilo' ac unrhyw beth arall y meddylioch amdano.

Wrth benderfynu beth y dylai Jason ei wneud gyda'r £122, mae'n werth cofio y dylech gael tir canol rhwng gwario a chynilo bob tro. Mae arnom i gyd angen mynd allan a mwynhau ein hunain weithiau a gallai hyn olygu gwario arian. Mae hefyd yn bwysig ceisio cynilo rhywbeth os oes gennym arian yn weddill fel sydd gan Jason.

# I BLE MAE'R
## ARIAN YN MYND?

### **Gweithgaredd 1,** Edrych ar ddatganiad.

**Cofnod Tasha**

2 il o Awst – Scarff £6.40
5 ed o Awst – Tâl gwaith £35
8 fed o Awst - CD newydd £10.99
9 fed o Awst – Cael torri ei gwallt £15 (misol)
9 fed o Awst – Arian ar gyfer noson allan £20
12 fed o Awst – Tâl gwaith £35
15 fed o Awst – Nofio £4.80
17 eg o Awst – Pizza £8.98
17 eg o Awst – Arian parod ar gyfer y sinema £20
19 eg o Awst – Tâl gwaith £35
20 fed o Awst – Arian poced am y mis £40
23 ain o Awst – Dwy gêm PS3 £4.30

Yng nghofnod Tasha o'i gwario y mae'r camgymeriad. Mae'r trafodiad ar gyfer 23ain o Awst wedi ei nodi fel dwy gêm PS3 £4.30. Dim ond wrth edrych ar y swm gallwn ddweud nad yw hwn, fwy na thebyg, yn gywir. Dylai Tasha fod wedi cofnodi £43.00. Byddai hwn wedyn yn cyd-fynd â'r datganiad banc.

### **Gweithgaredd 2,** Creu cyllideb barhaus.

Gallech newid y swm gwario a chynilo mewn llawer o ffyrdd gwahanol i wneud yn siŵr bod gan Jason ddigon o arian bob mis. Isod ceir un enghraifft yn unig o sut y gellir gwneud hynny. Efallai bod eich un chi yn edrych yn wahanol iawn.

**Mae'r symiau mewn cromfachau ( ) yn dangos fod yr arian hwn wedi cael ei wario.**

| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans a ddygir ymlaen | £0 | £52 | £64 | £276 | £58 | £0 |
| Incwm | 900 | 900 | 900 | 900 | 900 | 900 |
| Bonws | | 150 | | | | |
| Costau Byw | (778) | (778) | (778) | (778) | (778) | (778) |
| Mynd Allan | (50) | (50) | (40) | (40) | (40) | (50) |
| Cynilion | (20) | (20) | (20) | (20) | (20) | (20) |
| Penblwydd fy ffrind | | (50) | | | | |
| Gwyliau | | | | (280) | | |
| Treth car | | | | | (120) | |
| Balans a ddygir ymlaen | £52 | £64 | £276 | £58 | £0 | £52 |

Mae cynllunio ymlaen fel hyn yn sgil hynod ddefnyddiol. Gall roi gwybod i chi a fyddwch chi'n brin o arian ddigon ymlaen llaw. Fel hyn, bydd gennych o leiaf amser i ddatrys y broblem cyn iddi ddigwydd.

# ATEBION

## GWNEUD CYNLLUN

### **Gweithgaredd 1,** Digwyddiadau mawr bywyd.

**1. Cost car – £7,162**
Cofiwch mai dim ond y dechrau yw cost car! Cyn i chi hyd yn oed allu symud ar y ffordd bydd arnoch angen treth car, yswiriant a thanc o betrol, hefyd. Mewn rhai achosion, gall cost yswirio car cyntaf fod hyd yn oed yn ddrutach na phrynu'r car ei hun!

**2. Cost priodas – £11,000**
Mae hyn i gyd yn dibynnu ar fath y briodas y mae arnoch ei heisiau. Bydd rhai pobl yn gwario llawer mwy na hyn ac eraill lawer llai. Mae'n dibynnu'n union beth sy'n bwysig i chi ar y diwrnod.

**3. Incwm blwyddyn o swydd gyntaf – £16,356**
Gall ymddangos yn swm eithaf mawr o arian ond hwn yw'r ffigwr cyn tynnu treth incwm ac yswiriant gwladol. Ar y cyflog hwn byddai £13,480 yn weddill i chi wedi tynnu'r rheini. Cofiwch, byddech yn byw ar eich pen eich hun bryd hynny hefyd, fwy na thebyg, felly byddai raid i chi dalu rhent, biliau, prynu bwyd, dillad ac ati, yn ogystal â cheisio cynilo ychydig bob mis.

**Cost cartref cyntaf – £150,000**
Dyma yw'r cyfartaledd ar draws y Deyrnas Gyfunol. Bydd ardaloedd rhatach a rhai drutach. Mae tŷ yn rhywbeth hynod ddrud i'w brynu a dyna pam y mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl fenthyca'r arian o'r banc. Morgais yw'r enw arno ac oherwydd bod y swm yr ydych yn ei fenthyca mor fawr, yn aml iawn caiff ei dalu'n ôl dros 25 mlynedd.

**4. Cost blwyddyn gyntaf o gael babi – £10,261**
Mae plant yn ddrud iawn. Mae blwyddyn gyntaf bywyd babi yn enwedig o ddrud oherwydd yr holl offer unwaith-ac-am-byth y mae arnoch angen eu prynu, megis sêt i'r car, pram a chot. Ceir hefyd y costau parhaus, megis dillad, clytiau a bwyd.

## CYMHARU'R FARCHNAD

### **Gweithgaredd 1,** Pa gyfrif cynilo?

**Cyfrifon cynilo**

CYFRIF B yw'r dewis gorau, mae'n debyg, gan ei fod yn caniatáu iddi godi ei harian pan fo arni ei angen. Mae cyfleuster banc ar gael hefyd ac mae'n rhoi cyfradd llog uwch na CHYFRIF A.

Pe bai Clarissa'n defnyddio'r trên yn aml, efallai y buasai CYFRIF A yn fargen well iddi. Er bod y gyfradd llog yn is, efallai y gallai'r swm y gallai gynilo wrth ddefnyddio'r cerdyn rheilffordd fod yn uwch na'r gwahaniaeth yn y gyfradd llog.

Ar-lein yn unig yw CYFRIF C felly nid yw'n gyfleus i Clarissa gan nad oes ganddi gysylltiad â'r we.

Mae gan GYFRIF D gyfnod rhybudd o 30 diwrnod sy'n golygu bod rhaid i chi roi gwybod i'r banc bod arnoch eisiau codi arian 30 diwrnod ymlaen llaw.

Nid yw Clarissa byth yn siŵr pa bryd y mae arni angen codi arian felly ni fyddai hyn yn iawn iddi hi ar hyn o bryd. Pe gallai gynllunio fymryn yn well, hwn fyddai'r dewis gorau iddi o bosib gan fod ganddo bopeth arall y mae arni ei heisiau yn ogystal â'r gyfradd llog uwch.

# CYMHARU'R FARCHNAD

## **Gweithgaredd 2,** Mathau o fenthyca.

1. GORDDRAFT
2. MORGAIS
3. CERDYN CREDYD
4. CERDYN SIOP
5. BENTHYCIAD PERSONOL

**A.** Benthyciad a ddefnyddir fel arfer i brynu tŷ. [...]

**B.** Cerdyn y gallwch ei ddefnyddio i brynu'r rhan fwyaf o nwyddau a gwasanaethau. [...]

**C.** Benthyciad i unigolyn a ddefnyddir ar gyfer pethau megis prynu car, addurno'r tŷ ac ati. [...]

**D.** Cyfleuster sy'n caniatáu i chi wario mwy o arian na'r hyn sydd gennych yn eich cyfrif cyfredol yw hwn. [...]

**E.** Cerdyn y gallwch ei ddefnyddio i brynu eitemau o siop benodol. [...]

Tymor hir

Tymor canolig

Tymor byr

# LLWYDDO GYDAG ARIAN

## **Gweithgaredd 1,** Bod o gwmpas eich pethau.

**Beth yw'r broblem os aiff y llog ar eich cynilion i lawr?**
Os aiff y gyfradd llog ar eich cynilon i lawr golyga hyn y byddwch yn ennill llai o log yn ystod y flwyddyn.

**Beth benderfynodd Rhianna ei wneud unwaith y sylweddolodd bod y gyfradd llog mor isel?**
Chwiliodd am gyfrif cynilo arall gyda bargeinion gwell. Un o'r pethau i edrych allan amdano a'i gymharu yw'r Gyfradd Gyfatebol Flynyddol (CGF) (yn Saesneg: Annual Equivalent Rate – AER). Mae hon yn dangos i chi yn union faint o log y bydd eich cynilion yn ei ennill mewn blwyddyn. Rhaid i bob cyfrif cynilo ddangos beth yw'r CGF fel bod modd i chi eu cymharu'n hawdd. Dyma bethau eraill y byddech, o bosib, yn dymuno edrych allan amdanynt:

- Faint o arian sydd ei angen arnoch i agor y cyfrif
- Oes modd i chi godi eich arian pan y mynnoch (fe'i gelwir yn 'mynediad sydyn') ynteu oes raid i chi roi rhybudd (fel arfer mae hwn rhwng 30 diwrnod a 90 diwrnod, ond gall fod yn hirach)
- Sawl gwaith y mae modd i chi godi arian mewn blwyddyn. Mae rhai yn caniatáu i chi godi arian mor aml ag y dymunwch, tra bo eraill yn eich cyfyngu i ambell waith y flwyddyn.

**Sut aeth Rhianna ati i chwilio am fargen well?**
Defnyddiodd y we. Mae hwn yn lle hynod effeithiol i chwilio am bob math o gynhyrchion ariannol a'u cymharu. Ceir gwefannau penodol sydd wedi eu sefydlu yn unswydd i'ch cynorthwyo i wneud y cymariaethau hyn.

**Pam na ddewisodd y gyfradd orau bosib?**
Roedd y gyfradd orau gyda banc nad oedd wedi clywed amdano o'r blaen a theimlai'n fwy diogel yn mynd am gyfradd oedd fymryn yn is ond gyda banc yr oedd yn gwybod amdano. Weithiau, nid yw'r gyfradd llog uchaf y cyfrif cynilo gorau i chi ac mae gofyn i chi feddwl am bethau eraill, megis pa mor hir y bydd yn ei gymryd i mi gael at fy arian, cyn gwneud penderfyniad.

Dyma ffyrdd eraill y gallai fod wedi cael mwy o wybodaeth am y gwahanol gyfrifon cynilo:

- Gofyn i ofalwyr a ffrindiau
- Edrych yn adran ariannol papur newydd dyddiol
- Siarad gydag arbenigwr yng ngwahanol fanciau'r stryd fawr
- Mynd i weld ymgynghorydd ariannol annibynnol.

# EGLURHAD O'R
## TERMAU ARIANNOL

**Cyfrif *(Account)*** ▸ Trefniant gyda banc neu gymdeithas adeiladu i gadw'ch arian mewn cyfrif a chaniatáu i chi ei godi pan fo'r angen.

**Balans *(Balance)*** ▸ Yr arian sydd gennych yn eich cyfrif ar adeg benodol neu sy'n ddyledus ar eich cerdyn credyd neu gerdyn credyd siop neu ar rywbeth unwaith y mae'r blaendal wedi'i dalu. Bydd i'w weld ar eich datganiad.

**Cyfrif banc *(Bank account)*** ▸ Gwasanaeth gan fanc neu gymdeithas adeiladu sy'n caniatáu i chi dalu arian i mewn, i godi arian ac i dalu biliau ac ati. Mae'r banc yn cadw cofnod o'r holl drafodion.

**Datganiad banc *(Bank statement)*** ▸ Darn o bapur sy'n dangos yr holl arian a dalwyd i gyfrif ac a dalwyd allan ohono. Fel arfer, bydd datganiadau'n cael eu hanfon bob mis.

**Nodyn banc *(Banknote)*** ▸ Arian ar ffurf darn o bapur, lle bydd y banc yn talu'r swm o arian a ddangosir ar y papur.

**Benthyca *(Borrowing)*** ▸ Cael arian gan rywun a hwnnw'n arian yr ydych yn bwriadu ei dalu'n ôl ar ôl cyfnod o amser. Efallai y byddwch yn benthyca gan deulu a ffrindiau neu'n cymryd benthyciad ffurfiol gyda chytundeb ar ddu a gwyn gan fanc neu gymdeithas adeiladu.

**Cyllideb *(Budget)*** ▸ Swm o arian a gaiff ei neilltuo ar gyfer rhywbeth neu gall hefyd fod yn grynodeb o'r hyn y bwriedir ei wario ac incwm i dalu amdano.

**Arian parod *(Cash)*** ▸ Arian parod yw'r ffordd symlaf o dalu am rywbeth. Nid yw'n syniad da anfon arian parod i dalu am rywbeth drwy'r post ond gallwch dalu biliau, megis nwy a thrydan mewn arian trwy ddefnyddio'r sustem talu Giro sydd ar gael mewn swyddfeydd post a banciau.

**Cerdyn arian *(Cashcard)*** ▸ Cardiau arian neu gardiau peiriannau codi arian yw'r cardiau credyd symlaf. Fel arfer, ni chânt eu defnyddio ac eithrio mewn peiriannau codi arian (gyda rhif adnabod personol, neu rif PIN) i godi arian, i weld beth yw eich balans neu i argraffu datganiad bach.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Plant *(Child Trust Fund)*** ▸ Cyfrif cynilo/buddsoddi di-dreth a agorwyd i blant a anwyd rhwng 1 Medi 2002 a 2 Ionawr 2011 yw Cronfa Ymddiriedolaeth Plant. Bu'r Llywodraeth yn cyfrannu i'r cyfrifon hyn hyd at y dyddiad olaf uchod. Y Cyfreithiwr Swyddogol fydd yn cadw golwg ar Gronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant mewn gofal nad oes ganddynt rywun i gymryd cyfrifoldeb rhiantu drostynt. Mae The Share Foundation wedi gwneud cyfraniadau ychwanegol i rai o'r cyfrifon hyn rhwng 2005 a 2010.

**Cardiau credyd *(Credit cards)*** ▸ Cerdyn plastig bychan ar gael gan y rhan fwyaf o fanciau ac sy'n caniatáu i chi fenthyca hyd at derfyn penodol. Pan fyddwch yn talu gyda'ch cerdyn credyd, bydd y swm yr ydych yn ei wario yn cael ei ychwanegu at gyfanswm yr arian yr ydych wedi ei fenthyca. Bob mis anfonir datganiad yn dangos faint yr ydych wedi'i fenthyca a faint y mae gofyn i chi ei dalu'n ôl. Os nad ydych yn talu'r swm yn gyfan, byddwch yn dechrau talu llog ar gyfradd eithaf uchel. Mae rhai sefydliadau'n codi mwy arnoch am ddefnyddio cerdyn credyd na cherdyn debyd.

**Cyfrif cyfredol *(Current account)*** ▸ Cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu gyda llog isel sy'n eich helpu i gadw golwg ar eich arian beunyddiol, i dalu biliau, i dderbyn arian ac i gadw arian yn ddiogel.

**Cardiau debyd *(Debit cards)*** ▸ Cerdyn plastig bychan a ddefnyddir i brynu pethau heb ddefnyddio arian neu siec wrth dalu mewn siopau, siopa dros y ffôn neu ar y we. Pan fyddwch yn talu neu'n codi arian gyda'ch cerdyn debyd, mae'r arian yn cael ei dynnu'n syth o'ch cyfrif yn electronig. Nid oes modd i chi fenthyca arian ar gerdyn debyd.

**Dyled *(Debt)*** ▸ Os ydych mewn dyled, mae arnoch arian i rywun neu i sefydliad.

**Debyd uniongyrchol *(Direct debit)*** ▸ Cyfarwyddyd i'ch banc ryddhau arian o'ch cyfrif i dalu biliau a symiau eraill yn otomatig. Mae'r cwmni sy'n bilio yn gofyn am yr arian o'r banc yn uniongyrchol. Rhoddir gwybod i chi ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig faint fydd yn cael ei gymryd a'r dyddiad y bydd yn cael ei gymryd o'r cyfrif.

**Gwariant *(Expenditure)*** ▸ Swm yr arian y byddwch yn ei wario ar nwyddau neu wasanaethau.

**Incwm *(Income)*** ▸ Yr holl arian sydd gennych yn dod i mewn (fel cymhorthdal incwm neu fudd-dal

plant) a thaliadau cynhaliaeth plant ac incwm o fuddsoddiadau.

**Llog *(Interest)*** ▸ Y wobr a gewch am roi benthyg eich arian, er enghraifft, i fanc neu gymdeithas adeiladu. Hwn, hefyd, yw'r gost ychwanegol a dalwch pan fyddwch yn benthyca arian trwy fenthyciad neu gytundeb credyd. Fel arfer, caiff ei weithio allan fel canran (y gyfradd llog) o'r arian yr ydych wedi ei fenthyca. Er enghraifft, os yw cyfradd llog yn 10 y cant a chithau wedi benthyca £100, 10 y cant o £100 neu £10 yw'r llog y bydd gofyn i chi ei dalu.

**Buddsoddiadau *(Investments)*** ▸ Cynigir buddsoddiadau gan ystod eang o sefydliadau gwasanaeth ariannol. Cronfeydd a stociau a chyfranddaliadau yw'r mathau mwyaf cyffredin. Mae iddynt wahanol raddfa o risg, sy'n golygu y gall eich arian fod yn werth llai na'r hyn a fuddsoddwyd yn wreiddiol, ond gallant hefyd roi elw sylweddol uwch i chi na phe byddech yn gadael eich arian mewn cyfrif cynilo. Fel arfer bydd Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau ar gyfer pobl ifanc dan 15 oed yn cynnwys buddsoddiadau.

**Cyfrif Cynilo Unigol *(Individual Savings Account – ISA)*** ▸ Cyfrif lle nad ydych yn talu treth ar log a enillwyd. Mae cyfyngiad ar faint y gallwch ei gynilo bob blwyddyn treth mewn Cyfrif Cynilo Unigol.

**Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau *(Junior ISA)*** ▸ Cyfrif cynilo neu gyfrif buddsoddi i blant a phobl ifanc dan 18 oed yw Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau. Ni thelir treth ar log a enillir nac ar elw mewn gwerthoedd buddsoddi. Mae cyfyngiad ar faint y mae modd ei gynilo mewn Cyfrif Cynilo Unigol Plant Iau ym mhob blwyddyn treth (6ed o Ebrill hyd 5ed o Ebrill yn y flwyddyn ganlynol). Bydd The Share Foundation yn agor y cyfryw gyfrif i bob plentyn nad oes ganddo Gronfa Ymddiriedolaeth Plant ac sydd mewn gofal yn ddi-dor ers dros ddeuddeg mis, Bydd y Llywodraeth yn rhoi £200 i agor y cyfrif.

**Morgais *(Mortgage)*** ▸ Math o fenthyciad wedi ei warantu a gymerir fel arfer i brynu tŷ. Os nad ydych yn parhau i dalu'r taliadau morgais, fe all y cwmni morgais adfeddiannu eich tŷ.

**Benthyciad personol *(Personal loan)*** ▸ Benthyciadau y gallwch eu defnyddio i dalu am yr hyn y mynnoch (gyda chyfyngiadau penodol).

**Rhif PIN *(PIN)*** ▸ Rhif adnabod personol. Rhif diogelwch pedwar rhif a ddefnyddir gyda pheiriant codi arian, cardiau credyd a chardiau debyd. Mae fel llofnod electronig sy'n rhwystro pawb arall rhag defnyddio eich cyfrif.

**Cyflog *(Salary)*** ▸ Swm o arian a delir i weithiwr am waith. Fel arfer caiff ei dalu'n uniongyrchol i'w gyfrif/chyfrif banc bob mis.

**Cynilion *(Savings)*** ▸ Unrhyw arian y byddwch yn ei roi o'r neilltu i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Gall hwn fod mewn cyfrif adnau neu dan eich gwely (ond efallai nad yma yw'r lle gorau iddo!)

**Cyfrifon Cynilo *(Savings Accounts)*** ▸ Fel arfer caiff cynilion eu cadw mewn cyfrifon banc, mewn cymdeithas adeiladu neu mewn cyfrifon Cynilion Gwladol. Nid yw'r swm yr ydych yn ei roi i mewn yn disgyn mewn gwerth ond gall dyfu wrth i log gael ei ychwanegu.

**Trafodiad *(Transaction)*** ▸ Taliad i mewn i gyfrif banc neu allan ohono.

**Arian a godir *(Withdrawal)*** ▸ Codi arian o'ch cyfrif.

### Rhagor o gefnogaeth

Os ydych wedi mwynhau defnyddio'r llawlyfr hwn, efallai y dymunwch gael golwg ar adnoddau, gemau a llyfrau eraill a fydd o gymorth i chi ddod i wybod hyd yn oed mwy am arian. Ewch ar wefan **pfeg: www.pfeg.org/resources.**

### Hud adlog

Ystyr adlog (compound interest) yw bod y llog y byddwch yn ei ennill ym mlwyddyn 1 yn cael ei adio at gyfanswm eich cynilion (a elwir weithiau y prifswm). Mae hyn yn codi'r prifswm a (chan gymryd nad ydych yn codi arian) mae hynny'n codi swm y llog y byddwch yn ei ennill ym mlwyddyn 2, ac felly mae'r cylch yn parhau. I edrych i mewn ymhellach i adlog a sut y gallwch ei gyfrifo eich hun, edrychwch ar wefan Bitesize y BBC ar y linc a ganlyn – **http://tinyurl.com/dy84s3g**

# GOFALWYR, ATHRAWON
## A RHIENI CORFFORAETHOL

Bwriad y llawlyfr hwn yw helpu plant mewn gofal i ddatblygu eu gallu ariannol fel y byddant mewn sefyllfa well i drin eu harian wrth iddynt ddod yn annibynnol.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o elfen addysgiadol ac ariannol cynllun yr Adran Addysg i roi i Blant sy'n Derbyn Gofal (a adwaenir hefyd fel plant mewn gofal) Gyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau. Rhydd y cynllun, dan arweiniad 'The Share Foundation', gyfrif cynilo unigol plant iau i blant mewn gofal nad oes ganddynt Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Am fwy o wybodaeth am Gyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau ar gyfer plant mewn gofal, gweler **www.sharefound.org**

Ynghyd â'r llawlyfr hwn i bobl ifanc 15 oed throsodd mewn gofal, mae **pfeg** (Grŵp Addysg Arian Personol) hefyd wedi cynhyrchu'r deunydd a ganlyn fel rhan o'r prosiect hwn ar ran The Share Foundation:

- Llawlyfr i bobl ifanc 11 oed mewn gofal
- Gallu ariannol a Phlant sy'n Derbyn Gofal: rôl Rhieni Corfforaethol
- Gallu ariannol a Phlant sy'n Derbyn Gofal: arweiniad i ofalwyr a gweithwyr gofal preswyl

Mae'r holl ddeunydd ar gael ar **www.pfeg.org/TBC** neu **www.sharefound.org/TBC.** Ceir hefyd nifer fawr o adnoddau, gemau a deunyddiau ar faterion ariannol i'w defnyddio gyda phobl ifanc **www.pfeg.org**

## Yr adnodd hwn

Er mai bwriad penodol yr adnodd hwn yw ei gwneud yn bosib i bobl ifanc ei ddefnyddio'n annibynnol, efallai bod amgylchiadau lle bydd gofalwyr neu athrawon dynodedig (lle bo'n berthnasol) yn gweithio ochr yn ochr er mwyn cefnogi, neu gyda grŵp o bobl ifanc. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd arnoch eisiau ennyn diddordeb yr unigolion yr ydych yn gweithio gyda nhw mewn addysg arian personol. Isod ceir ychydig o syniadau ynghylch sut i wneud hynny:

- Gall ei bod yn anodd iawn darbwyllo person ifanc i wneud 'gwaith ychwanegol' y tu allan i ysgol, yn enwedig ar bwnc fel arian a all ymddangos fymryn yn sych a diflas. Efallai y byddai'n ddefnyddiol dechrau trafodaeth ar eitemau y mae galw mawr amdanynt, megis ffonau symudol. Bydd gan y mwyafrif helaeth ohonynt elfennau ariannol ynghlwm wrthynt y mae modd eu cysylltu â'r themâu yn yr adnodd hwn. Trwy wneud y cyswllt rhwng arian ac eitemau y mae galw mawr amdanynt, gallwch ennyn diddordeb a datblygu synnwyr o berchenogaeth o'r hyn y gall y person ifanc ei gyflawni trwy ddysgu.

- Trafodwch gyda'r person ifanc ei bod yn bosib bod ganddynt Gyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau neu gynnyrch cynilo arall ac efallai y bydd swm eithaf sylweddol ar gael iddynt unwaith y byddant yn ddeunaw oed. Unwaith eto, mae hyn yn creu pwrpas iddynt ddeall dipyn mwy am drin eu harian ac, yn ei dro, bydd yn ennyn diddordeb.

- Byddai modd defnyddio tudalennau gwybodaeth pob adran i sbarduno trafodaeth. Siaradwch gyda'ch gilydd am rai o'r materion allweddol a sut y gallent fod yn berthnasol i'r person ifanc. Dilynwch y gwaith hwn gyda'ch gilydd trwy un o'r gweithgareddau cysylltiedig gan, o bosib, ganiatáu i'r ail weithgaredd gael ei gwblhau'n annibynnol.

- Wrth ddefnyddio'r adnodd, cyfeiriwch at enghreifftiau o faterion ariannol go iawn. Gallai'r rhain ddod o'ch profiad eich hun, o hanes ar y newyddion neu o ddarnau o sioeau teledu. Mae pobl ifanc yn gwirioneddol werthfawrogi'r cyfle i geisio gweld pa mor berthnasol yw'r pethau y maent yn ei ddysgu. Bydd yr enghreifftiau yn y Llawlyfr hwn o gymorth i ddangos hyn iddyn nhw.

- Byddwch yn barod i neidio o un adran i'r llall ac yn ôl i'r dechrau. Nid oes unrhyw drefn benodol o ran defnyddio cynnwys yr adnodd. Yr hyn sydd bwysicaf yw eich bod yn defnyddio'r rhannau hynny sydd fwyaf perthnasol i'r person ifanc yr ydych yn gweithio gydag ef neu hi.

- Er nad yw'n bosib bob tro, gall cael profiad ymarferol o'r hyn a ddysgwyd o ddefnyddio'r adnodd fod o fudd mawr. Er enghraifft, gellid edrych ar ddatganiadau banc go iawn, cynllunio'r gyllideb fwyd am wythnos neu edrych i mewn i gyfrifon yng ngwahanol fanciau'r stryd fawr.

Mae'r adnodd yn dilyn pump maes dysgu a nodir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (er y defnyddir teitlau sydd fymryn yn fwy cyfeillgar i blant):

- Cael dau ben llinyn ynghyd (Gwneud i'ch arian fynd ymhellach)
- Cadw golwg ar fy arian (I ble mae'r arian yn mynd?)
- Cynllunio ymlaen (Gwneud cynllun)
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnyrch ariannol (Llwyddo gydag arian)

Mae tudalen o wybodaeth allweddol i'r bobl ifanc ei darllen a meddwl amdani ar gyfer pob un o'r meysydd hyn. Yna ceir dau weithgaredd cysylltiedig y dylid eu cwblhau'n annibynnol ac, mewn sawl achos, yn rhyngweithiol, er mwyn datblygu'r dysgu. Nid oes trefn benodol o ran cwblhau'r meysydd dysgu.

Mae'r pynciau a drafodir yn yr adnodd hwn yn ganlyniad i ddau grŵp ffocws o bobl ifanc mewn gofal.

## Addysg Arian Personol

Nod Addysg Arian Personol yw rhoi i bobl ifanc y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i drin eu harian yn iawn. Mae hi'r un mor bwysig i bob person ifanc ddeall ei agwedd at risg a bydd raid iddo fod yn ymwybodol o'i ymddygiad a'i emosiwn ei hun wrth wneud penderfyniadau ariannol. Mae tair rhan i addysg arian personol:

- **Gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol**
- **Sgiliau arian personol**
- **Agweddau at drin arian personol**

Bwriad defnyddio'r llyfr adnodd hwn yw rhoi i bobl ifanc mewn addysg uwchradd y cyfle i ddatblygu ac ymestyn yr hyn y maent yn ei ddysgu yn y maes hynod real, perthnasol ac aruthrol o bwysig hwn.

[1] FSA (2006) Financial capability in the UK: establishing a baseline

## Rhagor o gefnogaeth sydd ar gael

Yn ogystal â'r deunydd uchod, mae **pfeg** hefyd yn rhoi gwasanaeth cefnogaeth ffôn arbenigol. Mae'r llinell gymorth hon yn rhoi cefnogaeth i rieni corfforaethol, gofalwyr ac athrawon dynodedig ledled y Deyrnas Gyfunol trwy eu cynorthwyo i ddewis deunydd addysgiadol y mae modd i ofalwyr a phobl ifanc yn eu gofal eu defnyddio. Byddant hefyd yn eu hannog i ddysgu am arian ac yn enwedig am gynilion a Chyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau. Ffoniwch wasanaeth ymgynghorol addysg ariannol pfeg ar 0300 6660 127 neu anfonwch air at **support@pfeg.org**

## 'The Share Foundation' (www.sharefound.org)

Elusen annibynnol a sefydlwyd yn 2005 yw The Share Foundation i roi Cyfrifon Cynilo Unigol Plant Iau /cyfrifon buddsoddi i bob person ifanc mewn gofal (a adwaenir fel rhai 'sy'n Derbyn Gofal') am dros flwyddyn yn ddi-dor. Ni fydd gan y bobl ifanc hyn Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Mae 'The Share Foundation' yn gyfrifol am:

- Sefydlu pob cyfrif gyda grant cychwynnol o £200 gan y Llywodraeth;
- Codi arian gwirfoddol ychwanegol trwy annog unigolion a sefydliadau i gyfrannu a buddsoddi yn nyfodol y bobl ifanc yma;
- Monitro perfformiad gweithredol a buddsoddi'r cyfrifon hyn i gael y canlyniadau gorau; a

Rhoi addysg ariannol gyda chymorth **pfeg**.

## Pfeg (www.pfeg.org)

**pfeg** yw prif sefydliad y Deyrnas Gyfunol sy'n cynorthwyo ysgolion i gynllunio ac addysgu plant a phobl ifanc sut i drin eu harian yn awr ac yn y dyfodol.

Bwriad **pfeg** yw cefnogi darparwyr addysg i roi i blant a phobl ifanc y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i drin arian. Gwnawn hyn yn y ffyrdd a ganlyn:

- Dylanwadu ar bolisi ac ymarfer
- Cefnogi addysgwyr i ddysgu am faterion ariannol gyda hyder
- Darparu adnoddau addysgol fydd yn ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli.

# NODIADAU

# MAKING YOUR MONEY WORK FOR YOU
**Llawlyfr i bobl ifanc 15 oed a throsodd mewn gofal**

**Design by** IE Design Consultancy | **Illustrations** by Daniel Taylor | **www.iedesign.co.uk**

Department for Education

*Building an inheritance for young people in care*

sharefound

*'The UK's leading financial education charity'*

Personal Finance Education Group

**pfeg** Fifth Floor, 14 Bonhill St.
London EC2A 4BX
www.pfeg.com

**T** 020 7330 9470 / 0845 241 0925
**E** info@pfeg.org
follow us on Twitter @pfeg_org

**pfeg** is a registered charity. Registered number 1081639
**pfeg** is a company limited by guarantee. Registered number 3943766